GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace

# Ap COVID-19 y GIG Gwarchod eich Preifatrwydd

## Fydd yr ap ddim yn gwybod pwy ydych chi

Fydd dim mynediad at eich rhestr cysylltiadau ffôn nac at unrhyw ddata personol arall a gedwir ar eich ffôn, fel eich enw, ffotos, cyfeiriadau ebost na rhifau ffôn.

## Fydd yr ap ddim yn cael ei ddefnyddio i orfodi'r gyfraith

Cedwir yr holl ddata yn yr ap ar eich ffôn. Nid yw'r GIG na'r llywodraeth yn cael mynediad at y data ac ni allant eich monitro na'ch adnabod chi.

## Fydd yr ap ddim yn gallu tracio eich lleoliad

Mae'r ap yn tracio'r feirws, nid y person. Nid yw'r ap yn gwybod ble'r ydych chi ac nid yw'n gwybod a ydych yn dilyn cyngor hunanynysu. Mae'r ap yn defnyddio Bluetooth Egni Isel i fesur pa mor bell ydych chi oddi wrth ddefnyddwyr eraill yr ap ac am ba hyd. Mae'r ap yn tracio'r feirws, nid y person.

## Cewch ddewis dileu'r data neu'r ap

Gallwch weld yr holl ddata a gedwir ar eich ffôn a dewis dileu'r data hyn neu'r ap unrhyw bryd. Nid oes rhaid ichi ddefnyddio'r ap nac unrhyw un o'i nodweddion - ond gorau po fwyaf ohonom fydd yn defnyddio'r ap, i atal lledaeniad y feirws.

## Chi sy'n rheoli'r ap:

Chi sy'n dewis lawrlwytho'r ap

OFF ON

Chi sy'n dewis pa rannau o'r ap i'w defnyddio

Chi sy'n dewis pryd i ddileu'r ap

I lawrlwytho'r ap, chwiliwch am **NHS COVID-19** app

GET IT ON Google Play

Download on the App Store

Am ragor o wybodaeth ewch i **covid19.nhs.uk**